Lwfans Gweini

Mai 2010

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu'r holl amgylchiadau a all godi. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y daflen yn gywir o fis Mai 2010. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn.

Ffôn **0800 88 22 00** Ffôn testun **0800 24 33 55**

Cynnwys

Beth yw Lwfans Gweini? 4
A allaf gael Lwfans Gweini? 5
Beth yw ystyr 'cymorth gyda gofal personol' a 'goruchwylio? 6
Pryd y gallaf wneud cais am Lwfans Gweini? 8
A oes angen i mi neu fy nheulu fyw ym Mhrydain Fawr? 9
A allaf gael Lwfans Gweini os byddaf mewn cartref gofal neu ysbyty pan fyddaf yn gwneud cais? 11
Sut y caiff Lwfans Gweini ei weithio allan? 12
Beth os oes gennyf salwch terfynol? 14
Sut y gallaf wneud cais am Lwfans Gweini neu gael rhagor o wybodaeth? 15
Pa gymorth arall sydd ar gael? 18
Credydau Gofalwr 20
Credyd Treth Gwaith (elfen anabledd ac anabledd difrifol) 20
Costau galwadau 22
Ffonau testun 23
Fformatau eraill 23

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability

Beth yw Lwfans Gweini?

Arian i'ch helpu gyda chostau ychwanegol a allai fod gennych os ydych yn anabl yw'r Lwfans Gweini. Efallai y byddwch yn gymwys os ydych yn 65 oed neu'n hŷn a gydag anabledd sy'n ddigon difrifol fel bod angen help rhywun arnoch i ofalu amdanoch eich hun.

Efallai nad ydych yn ystyried eich bod yn anabl, ond os oes gennych gyflwr iechyd neu salwch sy'n golygu bod angen help arnoch, efallai y gallwch gael Lwfans Gweini.

Gallwch gael Lwfans Gweini hyd yn oed os nad oes unrhyw un yn eich helpu i ofalu amdanoch eich hun.

Os ydych o dan 65 oed, efallai y gallwch gael Lwfans Byw i'r Anabl yn lle Lwfans Gweini.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Lwfans Gweini a Lwfans Byw i'r Anabl drwy fynd i wefan Directgov neu gysylltu â ni. Gweler ein manylion isod neu ar dudalen 15.

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn.

Ffôn **0800 88 22 00** Ffôn testun **0800 24 33 55**

A allaf gael Lwfans Gweini?

Gallwch gael Lwfans Gweini os ydych yn 65 oed neu'n hŷn pan fyddwch yn gwneud eich cais ac:

- nid oes hawl gennych i gael Lwfans Byw i'r Anabl ac
- mae eich anabledd yn golygu bod angen help arnoch gyda'ch gofal personol neu mae angen rhywun arnoch i'ch goruchwylio er mwyn eich diogelwch chi neu ddiogelwch rhywun arall (gweler tudalen 6).

Gall eich anabledd fod yn gorfforol (gan gynnwys anabledd synhwyrol, fel dallineb) neu'n feddyliol (gan gynnwys anawsterau dysgu), neu'r ddau.

Fel arfer, mae'n rhaid bod gennych yr anghenion gofal neu oruchwylio hyn ers o leiaf chwe mis. Fodd bynnag, os oes gennych salwch terfynol, mae rheolau arbennig ar gyfer gwneud cais am y budd-dal – gweler tudalen 14.

Fel arfer nid oes rhaid i chi fod wedi talu unrhyw gyfraniadau Yswiriant Gwladol ac fel arfer gallwch gael Lwfans Gweini p'un a ydych yn gweithio ai peidio. Ond os ydych chi neu aelod o'ch teulu yn byw neu'n gweithio yn un o wledydd eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu yn y Swistir, mae'n bosibl y bydd amodau gwahanol yn gymwys (gweler tudalen 9)

Nid ydym fel arfer yn ystyried eich incwm nac yn didynnu Lwfans Gweini oddi ar unrhyw fudd-daliadau eraill neu gredydau treth, ac mae'n ddi-dreth.

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability

Beth yw ystyr ‘cymorth gyda gofal personol’ a ‘goruchwylio’?

Ystyr ‘help gyda gofal personol’ yw help gyda phethau o ddydd i ddydd fel:

- ymolchi (neu fynd i mewn neu allan o'r bath neu gawod)
- gwisgo
- bwyta
- mynd i'r toiled neu ei ddefnyddio
- dweud wrth bobl beth sydd ei angen arnoch, neu
- sicrhau bod eraill yn eich deall (er enghraifft, os oes gennych anawsterau dysgu).

Ystyr ‘goruchwylio’ yw bod angen rhywun arnoch i ofalu amdanoch er mwyn osgoi niwed sylweddol i chi eich hun neu bobl eraill. Gallai hyn olygu bod rhywun yn gofalu amdanoch:

- pan fyddwch yn cymryd meddyginiaethau neu'n cael triniaeth
- er mwyn eich cadw rhag perygl nad ydych o bosibl yn ymwybodol ohono
- er mwyn osgoi perygl y gallech ei wynebu am na allwch reoli'r ffordd rydych yn ymddwyn, neu

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn.

Ffôn **0800 88 22 00** Ffôn testun **0800 24 33 55**

- er mwyn eich atal rhag niweidio eich hun neu bobl eraill.

Efallai fod angen help arnoch gyda gofal personol neu oruchwyliaeth oherwydd:

- ei bod yn anodd i chi symud eich breichiau neu'ch coesau yn llyfn neu nad oes gennych reolaeth drostynt
- eich bod yn mynd yn fyr eich anadl yn hawdd neu rydych mewn poen, neu
- mae gennych anawsterau ymddygiad, problemau iechyd meddwl neu rydych yn drysu.

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability

Pryd y gallaf wneud cais am Lwfans Gweini?

Fel arfer dim ond pan fu gennych yr anghenion hyn o ran gofal personol neu oruchwyliaeth am chwe mis y gallwch gael Lwfans Gweini, oni bai bod gennych salwch terfynol ac yn ei hawlio o dan y rheolau arbennig – gweler tudalen 14.

Dylech wneud cais ar unwaith a byddwn yn ymdrin â'ch cais cyn gynted â phosibl.

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn.

Ffôn **0800 88 22 00** Ffôn testun **0800 24 33 55**

A oes angen i mi neu fy nheulu fyw ym Mhrydain Fawr?

Er mwyn cael Lwfans Gweini, mae angen i chi fodloni amodau penodol o ran:

- byw ym Mhrydain Fawr,
- pa mor hir rydych wedi bod yma, ac
- eich statws mewnfudo, os nad ydych yn ddinesydd Prydeinig.

Os ydych yn byw ym Mhrydain Fawr a bod angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â ni (mae ein manylion cyswllt ar dudalen 15), neu ewch i www.direct.gov.uk/disability.

O dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd, mae'n bosibl y bydd amodau gwahanol yn gymwys, er enghraifft, os ydych chi neu aelod o'ch teulu wedi symud o'r DU i wlad arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (gweler y nodyn ar y dudalen nesaf) neu'r Swistir, neu wedi dod o un o'r gwledydd hynny i'r DU. Bydd p'un a allwch gael budd-dal ai peidio a'r math o fudd-dal sydd ar gael yn dibynnu ar ble rydych chi (neu aelodau o'ch teulu) yn gweithio neu'n byw.

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.direct.gov.uk/claimingbenefits neu ysgrifennwch at:

The Exportability Co-ordinator
Room B201, PDCS
Warbreck House
Warbreck Hill Road
Blackpool
FY2 0YE.

Noder: Mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cynnwys 27 o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Cyprus, Gweriniaeth Siec, Denmarc, Estonia, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Groeg, Hwngari, yr Eidal, Latfia, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, Yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Gweriniaeth Iwerddon, Romania, Slofacia, Slofenia, Sbaen, Sweden a'r DU), yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn.

Ffôn **0800 88 22 00** Ffôn testun **0800 24 33 55**

A allaf gael Lwfans Gweini os byddaf mewn cartref gofal neu ysbyty pan fyddaf yn gwneud cais?

Fel arfer ni fyddwn yn talu Lwfans Gweini i chi, os byddwch mewn cartref gofal pan fyddwch yn gwneud cais - hynny yw, man sy'n darparu llety a gofal nyrsio neu ofal personol. Ond efallai y byddwn yn talu Lwfans Gweini i chi os byddwch yn talu am holl gostau eich llety, bwyd neu ofal personol, heb gymorth gan awdurdod lleol neu gyhoeddus.

Os byddwch yn yr ysbyty pan fyddwch yn gwneud cais, ni fyddwn fel arfer yn talu Lwfans Gweini hyd nes y byddwch yn gadael. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn ei dalu os byddwch yn glaf preifat a'ch bod yn talu am eich llety a'ch triniaeth heb gymorth gan y GIG. Efallai y byddwn yn talu Lwfans Gweini os oes gennych salwch terfynol a'ch bod yn gwneud cais o dan y rheolau arbennig (gweler tudalen 14) a'ch bod mewn hosbis.

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability

Sut y caiff Lwfans Gweini ei weithio allan?

Ceir dwy gyfradd o Lwfans Gweini:

- cyfradd is, a
- cyfradd uwch.

Mae'r gyfradd y gallech ei chael yn seiliedig ar faint o help sydd ei angen arnoch.
Er mwyn gweld manylion symiau Lwfans Gweini, ewch i wefan Directgov neu cysylltwch â ni - gweler ein manylion isod neu ar dudalen 15.

Cyfradd is

Gallech gael cyfradd is Lwfans Gweini os oes angen y canlynol arnoch:

- cymorth gyda gofal personol yn aml drwy gydol y dydd
- cymorth gyda gofal personol yn ystod y nos
- rhywun i'ch goruchwylio'n barhaus drwy gydol y dydd er mwyn osgoi perygl sylweddol (gweler tudalen 6)
- rhywun i ofalu amdanoch yn ystod y nos er mwyn osgoi perygl sylweddol, neu
- rhywun i fod gyda chi pan fyddwch yn cael dialysis.

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn.

Ffôn **0800 88 22 00** Ffôn testun **0800 24 33 55**

Cyfradd uwch

Gallech gael cyfradd uwch Lwfans Gweini os ydych:

- yn bodloni amod dydd **a** nos ar gyfer y gyfradd is (gweler y dudalen flaenorol). Yn fras, mae angen help arnoch gyda gofal personol neu rywun i'ch goruchwylio drwy gydol y dydd **a** hefyd help gyda gofal personol neu rywun i ofalu amdanoch yn ystod y nos.

Mae'n bosibl y gallwch hefyd gael y gyfradd hon os oes gennych salwch terfynol a'ch bod yn gwneud cais o dan y rheolau arbennig (gweler yr adran nesaf).

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability

Beth os oes gennyf salwch terfynol?

Mae gennym reolau arbennig ar gyfer pobl sydd â salwch terfynol (sef pobl sydd ag afiechyd cynyddol ac nad oes disgwyl iddynt fyw mwy na chwe mis arall). Gallwch gael cyfradd uwch Lwfans Gweini ar unwaith.

Gallwch hawlio Lwfans Gweini ar ran unigolyn sydd â salwch terfynol. Nid oes rhaid iddo wybod ac nid oes rhaid i chi gael ei ganiatâd i wneud cais.

Er mwyn gwneud cais o dan y rheolau arbennig hyn, bydd angen i chi lenwi'r rhannau perthnasol o'r ffurflen gais am Lwfans Gweini a chael ffurflen DS1500 ar wahân wedi'i chwblhau gan eich meddyg, arbenigwr neu ymgynghorydd i'w hanfon gyda hi.

Byddwn yn delio â'ch cais cyn gynted ag y gallwn.

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn.

Ffôn **0800 88 22 00** Ffôn testun **0800 24 33 55**

Sut y gallaf wneud cais am Lwfans Gweini neu gael rhagor o wybodaeth?

I wneud cais am Lwfans Gweini, mae angen i chi lenwi ffurflen gais. Neu gallwch wneud cais ar-lein.

Mae nifer o ffyrdd y gallwch gysylltu â ni.

Dros y ffôn

Llinell Ymholiadau Budd-daliadau

I gael ffurflen gais, a help i'w llenwi, gallwch ffonio'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau ar:

- 0800 88 22 00 (ffôn), neu
- 0800 24 33 55 (os ydych yn defnyddio ffôn testun).

Gallwch ein ffonio rhwng 8.30am a 6.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Neu rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn.

Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf, gallwch ddefnyddio eich cyfieithydd eich hun neu un a ddarperir gennym ni.

Os byddwch yn gofyn am becyn cais, byddwn yn trin dyddiad eich galwad ffôn fel dyddiad eich cais, ar yr amod eich bod yn dychwelyd eich ffurflen o fewn chwe wythnos.

Pan fyddwch yn ein ffonio, dim ond cyngor y gallwn ei roi i chi. Nid yw'r cyngor hwn yn gyfystyr â'n penderfyniad ar eich cais.

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability

Drwy'r post, gan ddefnyddio'r slip ateb

Gallwch hefyd lenwi'r slip ateb ar y daflen hon a'i hanfon atom i ofyn am ffurflen gais. Nid oes angen stamp arnoch. Byddwn yn anfon ffurflen gais a nodiadau atoch i'ch helpu i'w llenwi. Byddwn yn trin y dyddiad y byddwn yn anfon eich ffurflen atoch fel eich dyddiad cais, ar yr amod eich bod yn ei dychwelyd o fewn chwe wythnos.

Ar-lein

Directgov

Gwasanaethau cyhoeddus i gyd yn un lle
www.direct.gov.uk

I gael gwybodaeth ar gyfer pobl anabl a gofalwyr ynglŷn â'r canlynol:

- cymorth ariannol
- cyngor cyffredinol
- hawliau

a llawer mwy, ewch i

www.direct.gov.uk/disability

Drwy'r wefan hon, gallwch hefyd:

- wneud cais am Lwfans Gweini ar-lein
- llenwi ffurflen gais ar eich cyfrifiadur i'w hargraffu a'i phostio atom, neu
- argraffu ffurflen gais wag i'w llenwi â llaw a'i phostio atom.

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn.

Ffôn **0800 88 22 00** Ffôn testun **0800 24 33 55**

Os byddwch yn anfon ffurflen gais atom drwy'r post, byddwn yn trin y dyddiad y byddwn yn derbyn y ffurflen fel dyddiad eich cais.

Yn ysgrifenedig

Mae ein cyfeiriad ar frig unrhyw lythyr rydym yn ei anfon atoch.

Gallwch hefyd ysgrifennu i:

Disability Contact and Processing Unit (DCPU)
Warbreck House
Warbreck Hill
Blackpool
FY2 0YE.

Gallwch anfon e-bost atom yn DCPU.customer-services@dwp.gsi.gov.uk os byddai'n well gennych.

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability

Pa gymorth arall sydd ar gael?

Os ydych yn cael Lwfans Gweini, efallai gallwch gael arian ychwanegol fel rhan o'ch:

- Budd-dal Tai
- Budd-dal Treth Cyngor, neu
- Credyd Pensiwn.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.direct.gov.uk. Gallwch holi eich cyngor lleol hefyd am Fudd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor.

Lwfans Gofalwr

Os oes rhywun yn gofalu amdanoch am o leiaf 35 awr yr wythnos, efallai y gallai gael Lwfans Gofalwr.

Nid oes rhaid iddo fyw gyda chi, ac nid oes rhaid i chi gael cytundeb gofal ffurfiol ag ef.

Os yw eich gofalwr yn cael Lwfans Gofalwr, a'ch bod wedi bod yn cael arian ychwanegol am anabledd difrifol drwy Fudd-dal Tai, Budd-dal Treth Cyngor neu Gredyd Pensiwn, ni chewch yr arian ychwanegol hwn mwyach.

Os credwch y bydd hyn yn effeithio arnoch, cysylltwch â'r Uned Lwfans Gofalwr i gael cyngor (gweler tudalen 19 am fanylion).

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn.

Ffôn **0800 88 22 00** Ffôn testun **0800 24 33 55**

Er mwyn sicrhau na fydd yn colli unrhyw fudd-dal, dylai eich gofalwr wneud cais o fewn tri mis i'r dyddiad y byddwn yn rhoi penderfyniad i chi am eich Lwfans Gweini.

Gall eich gofalwr gael ffurflen gais neu daflen drwy ffonio'r canlynol:

Y Llinell Ymholiadau Budd-daliadau ar:

- 0800 88 22 00 (ffôn), neu
- 0800 24 33 55 (ffôn testun).

Uned Lwfans Gofalwr ar:

- 0845 60 84 321 (ffôn), neu
- 0845 60 45 321 (ffôn testun).

Gallant hefyd ysgrifennu i:

Carer's Allowance Unit
Palatine House
Lancaster Road
Preston
PR1 1HB.

Gall eich gofalwr hefyd wneud cais ar-lein drwy wefan Directgov. Gweler tudalen 16 am fanylion.

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability

Credydau Gofalwr

O 6 Ebrill 2010, bydd gofalwyr yn gallu cronni blynyddoedd cymhwyso drwy gredydau wythnosol newydd ar gyfer Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a Phensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Fe'u gelwir yn Gredydau Gofalwr.

Os ydych yn gofalu am un unigolyn neu fwy am gyfanswm o 20 awr yr wythnos neu fwy, ac nid oes gennych hawl i gael Lwfans Gofalwr, gallwch wneud cais am Gredyd Gofalwr. Gall hwn ddiogelu eich hawl i gael elfennau sylfaenol o Bensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau profedigaeth yn y dyfodol.

Gall y credydau hefyd eich helpu i gronni rhywfaint o bensiwn ychwanegol, a elwir yn aml yn Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Pan fyddwch yn gwneud cais am eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth, byddwn hefyd yn talu unrhyw bensiwn ychwanegol y mae gennych hawl i'w gael.

Credyd Treth Gwaith (elfen anabledd ac anabledd difrifol)

Os gallwch hawlio Credyd Treth Gwaith, a'ch bod chi (neu eich partner os oes un gennych) hefyd yn cael Lwfans Gweini ar y gyfradd uwch, efallai y gallwch gael yr elfen anabledd difrifol o Gredyd Treth Gwaith. Gallech hefyd gael yr elfen anabledd o Gredyd Treth

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn.

Ffôn **0800 88 22 00** Ffôn testun **0800 24 33 55**

Gwaith, os ydych chi (neu eich partner os oes un gennych) yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy, os oes gennych anabledd sy'n golygu eich bod dan anfantais o ran cael swydd, a'ch bod yn cael Lwfans Gweini ar y naill gyfradd.

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r unigolyn arall hwn yn bartner i chi.

Partner sifil yw rhywun sydd wedi llunio cytundeb ffurfiol (a elwir yn 'bartneriaeth sifil') â phartner o'r un rhyw fel bod ganddynt yr un statws cyfreithiol â chwpl priod.

I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch y Llinell Gymorth Credydau Treth ar:

- 0845 300 3900 (ffôn), neu
- 0845 300 3909 (ffôn testun).

Mae'r llinellau ar agor rhwng 8am ac 8pm bob dydd ac eithrio Dydd Nadolig, Gŵyl San Steffan, Dydd Calan a Sul y Pasg.

Gallwch hefyd edrych ar wefan Cyllid a Thollau EM yn, www.hmrc.gov.uk/taxcredits

Neu ysgrifennu i:

Tax Credit Office
Preston
PR1 0SB.

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability

Cost galwadau

Roedd y costau'n gywir ar y dyddiad ar gefn y daflen hon.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT gostio mwy na 4c y funud a 9c am sefydlu'r alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly holwch eich darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn.

Ffôn **0800 88 22 00** Ffôn testun **0800 24 33 55**

Ffonau testun – os ydych yn cael anhawster gyda'ch lleferydd neu'ch clyw

Mae ein rhifau ffôn testun ar gyfer pobl na allant siarad na chlywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, gallech holi a oes gan eich llyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth leol un.

Ni all ffonau testun dderbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Gallwch hefyd ffonio gan ddefnyddio RNID Typetalk.

Fformatau eraill

Os hoffech gael y daflen hon yn Gymraeg a fformatiau eraill, ffoniwch 0800 88 22 00.

Os na allwch siarad neu glywed yn glir, gallwch archebu ein taflenni o'n gwasanaeth ffôn testun ar 0800 24 33 55.

Gallwch ffonio'r rhifau hyn rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener neu rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn.

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability

ISBN: 978-1-84763-796-3
(h) Hawlfraint y Goron
Cynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr, rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau.
Argraffwyd yn y DU. Mai 2010. AAA5DCSW

Cais am Ffurflen Gais

Anfonwch ffurflen gais ataf am Lwfans Gweini.

Defnyddiwch inc ac ysgrifennwch mewn PRIF LYTHRENNAU.

Ticiwch un o'r blychau isod i ddewis ffurflen gais mewn print safonol, print bras neu braille.

- ☐ Print safonol
- ☐ Print bras
- ☐ Braille

Enw:

Cyfeiriad:

Cod post:

Business Reply Service
Licence No OL5225

1

Department for Work and Pensions
PO Box 51
Heywood
Lancashire
OL10 2GG